



Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

2015 dccc 1

RHAN 7

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH SWYDDOGAETHAU CCAUC

Arfer swyddogaethau gan CCAUC

47 Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu sefydliadau

- (1) Nid oes dim byd yn y Ddeddf hon yn rhoi pŵer i CCAUC i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad wneud unrhyw beth sy'n anghydawns—
- (a) ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n gymwys i'r corff llywodraethu yn rhinwedd bod y sefydliad yn elusen, neu
 - (b) â dogfennau llywodraethu'r sefydliad.
- (2) At ddibenion is-adran (1)(b), dogfennau llywodraethu sefydliad yw—
- (a) yn achos sefydliad a sefydlwyd drwy siarter Frenhinol—
 - (i) siarter y sefydliad, a
 - (ii) unrhyw offeryn sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad, y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor er mwyn gwneud neu ddiwygio'r offeryn hwnnw;
 - (b) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth ac erthyglau llywodraethu'r sefydliad;
 - (c) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth a'i herthyglau llywodraethu;
 - (d) yn achos sefydliad a ddynodwyd o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, offeryn llywodraethu'r sefydliad a'i erthyglau llywodraethu;
 - (e) yn achos sefydliad nad yw'n dod o fewn paragraffau (a) i (d) sy'n cael ei redeg gan gwmni, memorandwm y cwmni a'i erthyglau cymdeithasu.

48 Dyletswydd i ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd

Wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon, rhaid i CCAUC ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd gan gynnwys, yn benodol, rhyddid sefydliadau—

- (a) i benderfynu ar gynnwys cyrsiau penodol a'r dull o'u haddysgu, eu goruchwyllo neu eu hasesu,
- (b) i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr ac i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol, ac
- (c) i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academiaidd ac i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol.

49 Dyletswydd i ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru

Wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon, rhaid i CCAUC ystyried unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.